Cofnodion cyfarfod 14 Mehefin 2022 a gynhaliwyd yn rhithiol am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws		
Eifion Williams	Cynog Prys	
Dafydd Huws	Iestyn Harris	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws, derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Llŷr Evans, Emyr Gareth a Daniel Williams. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y brofedigaeth o golli cymeriad annwyl o'r pentref sef Mr David Jones (Bubs). Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf i'w frawd John.	**CLERC**
1.2	Ni chafwyd aelodau o'r cyhoedd i ymuno yn y cyfarfod.	**CLERC**
1.3	Cafwyd dim ond un ymgais ar gyfer fod yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd byddai Nel Huws yn cael ei chyfethol. Bydd angen 4 aelod arall.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Mai ynghyd a'r adroddiad ariannol. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol.	
3.2	Fe gymeradwyed fod y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gywir gan y Cyngor. Y Clerc i sicrhau eu bod yn cael eu hanfon at Archwilydd Cymru.	**Clerc**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mis Mai 2022 fel rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Cytunwyd i sicrhau cyfarfod ag Adran Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd ar ôl Archwiliad Llwybrau Cyhoeddus y pentref eleni.	**CLERC**
4.3	Gan fod 4 sedd yn parhau ar y Cyngor - y bwriad yw cael stondin ar y dydd Sadwrn yn Gŵyl y Felin gydag arddangosfa fach i ddangos beth mae'r Cyngor yn i'w wneud a hefyd i drio cael aelodau o'r pentref i ymuno ar Cyngor. Y Clerc i sicrhau amserlen gogyfer presenoldeb cynghorwyr ar y diwrnod.	**CLERC**
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais: C22/0519/20/DT Lleoliad : 4 Aber Cottages, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JY Bwriad: Storfa gardd newydd a mân waith tirlunio. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.2	Rhif Cais : C22/0503/20/LL Lleoliad: Pant Erys, 34 Glan Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ Bwriad : Cais ôl-weithredol i newid defnydd ardal adwerthu A1 i greu estyniad i'r tŷ· presennol. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.3	Rhif Cais : C22/0502/20/AM Lleoliad : Pant Erys, 34 Glan Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ Bwriad : Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tri thŷ· annedd deulawr â un ohonynt yn fforddiadwy -	

	a chreu mynedfa a darparu gofod parcio o dan y tai ar y llawr daear. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.4	Rhif Cais : C22/0500/20/DT Lleoliad : Y Wenallt Tafarngrisiau, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4NZ Bwriad: Estyniad cefn ac ochr . **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
7.0	**ASEDAU**	
7.1	Cafwyd gwybodaeth bod defaid sydd yn pori wedi dianc. Fe ymwelwyd â'r fynwent gan y Cynghorydd Llŷr Evans ond nid oedd tystiolaeth bod y ffens wedi malu. Er bod y Ffarmwr eisiau gwelliant i'r ffens nid oedd y Cyngor am symud ymlaen a hyn am y tro ond penderfynwyd monitro'r sefyllfa.	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LON LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Roedd adroddiad wedi ei anfon ymlaen at Adran Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd bod arwydd Llwybr Bodandreg o'r ffordd wedi diflannu. Hefyd mae giât wedi ei chodi. Y Clerc i gysylltu ar adran.	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Dim gwybodaeth bellach i'r adroddiad mis diwethaf.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim adroddiad pellach.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 20:10	
Llofnod:		**Dyddiad:** **12/7/2022**